Cyllid &
Thollau EF

# Hawlio Lwfans Gwarcheidwad

Mae Lwfans Gwarcheidwad yn fudd-dal sy'n rhydd o dreth. Mae'n cael ei dalu i rywun sy'n gofalu am blentyn pan fo'i rieni wedi marw. Mewn rhai amgylchiadau, gellir ei dalu os mai dim ond un rhiant sydd wedi marw.

## Pwy all gael Lwfans Gwarcheidwad?

Does dim ots faint o arian sydd gennych na faint yr ydych yn ei ennill. Mae gennych yr hawl i Lwfans Gwarcheidwad os oes gennych yr hawl i Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn, ac mae unrhyw un o'r isod yn berthnasol:
- mae'r ddau riant wedi marw
- mae'r fam wedi marw, ac nid yw'r tad wedi'i gadarnhau
- mae un rhiant wedi marw ac mae'r rhiant sy'n fyw yn y carchar, a bydd y tymor hwnnw'n parhau am o leiaf 2 flynedd - ni fydd hyn yn berthnasol os yw'r rhiant wedi'i remandio ar hyn o bryd
- mae un rhiant wedi marw ac mae'r rhiant sy'n fyw wedi'i gadw yn yr ysbyty drwy orchymyn y llys
- mae un rhiant wedi marw, ac ar ddyddiad y farwolaeth nid oeddech yn gwybod ble'r oedd y rhiant sy'n fyw, ac rydych wedi ceisio, ond heb ddod o hyd i'r rhiant arall

Yn ogystal, mae'n rhaid bod y naill neu'r llall o'r canlynol yn wir am un o rieni'r plentyn:
- wedi'i eni yn y DU neu yn un o aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu yn y Swistir
- ar ddyddiad y farwolaeth, wedi bod yn y DU am o leiaf 52 wythnos mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd ers iddo fod yn 16 oed (mae'n bosibl y bydd gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Prydeinig neu'r gwasanaethau masnachlongau yn cyfrif fel bod yn y DU)

Ni allwch gael Lwfans Gwarcheidwad os yw'r canlynol yn wir:
- mae dau riant y plentyn yn dal i fod yn fyw
- mae un rhiant wedi marw ac mae lleoliad y rhiant sy'n fyw yn hysbys
- chi yw'r rhiant sy'n fyw
- nid oes hawl gennych i Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn

## Dod o hyd i riant sy'n fyw

Mae gennych yr hawl i Lwfans Gwarcheidwad os oes un rhiant wedi marw ac nid yw lleoliad y rhiant sy'n fyw yn hysbys. Mae 'lleoliad' yn golygu ble y mae'r rhiant yn byw, yn gweithio neu rywle y mae'n mynychu'n rheolaidd, fel coleg. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod wedi gwneud ymdrech resymol i ddod o hyd i'r rhiant sy'n fyw.

### Yr hyn a olygwn gan 'ymdrech resymol'

Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod wedi rhoi cynnig ar bob modd posibl o ddod o hyd i'r rhiant sy'n fyw. Er enghraifft, gallech geisio cysylltu â'r canlynol:
- y cyfeiriad hysbys diwethaf
- perthnasau neu ffrindiau

## Cysylltu â ni

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch wybod i ni beth yw'ch:
- enw llawn
- rhif Yswiriant Gwladol
- rhif ffôn yn ystod y dydd

**Dros y ffôn**

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

08:30 - 17:00, Dydd Llun - Dydd Gwener

Relay UK (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn): 18001 ac yna 0300 200 3100

**Ar bapur**

Budd-dal Plant – Lwfans Gwarcheidwad
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg
CThEF
HMRC
BX9 1ST

Gallwch gael cymorth ychwanegol os yw'ch cyflwr iechyd neu'ch amgylchiadau personol yn ei gwneud hi'n anodd i chi gysylltu â Chyllid a Thollau EF (CThEF).

Ewch i GOV.UK, chwilio am 'Get help from HMRC', ac yna dewis yr opsiwn Cymraeg ar y dudalen berthnasol.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF am ragor o wybodaeth.

# Achosion arbennig

## Mabwysiadu

Os yw plentyn wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon, caiff y rhieni mabwysiadol eu trin fel rhieni naturiol y plentyn at ddibenion Lwfans Gwarcheidwad. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael Lwfans Gwarcheidwad os yw'r canlynol yn wir:

- cafodd y plentyn ei fabwysiadu gan un person yn unig ac mae'r person hwnnw wedi marw
- chi yw rhiant naturiol y plentyn, ac mae'r rhieni mabwysiadol wedi marw

Os ydych yn cael Lwfans Gwarcheidwad ac rydych yn mabwysiadu'r plentyn yn hwyrach, fel arfer byddwch yn parhau i'w gael.

## Llysrieni

Gellir talu Lwfans Gwarcheidwad hyd yn oed os yw un o lysrieni'r plentyn yn dal i fod yn fyw. Mewn rhai amgylchiadau, gall llysriant sy'n magu'r plentyn ei gael.

## Rhiant sy'n fyw sydd yn y carchar neu'n cael ei gadw yn yr ysbyty

Os ydych yn cael Lwfans Gwarcheidwad gan fod y rhiant sy'n fyw:

- yn y carchar
- yn cael ei gadw yn yr ysbyty drwy orchymyn y llys, o ganlyniad i un o'r canlynol:
  (i) adran 37(1)(4), 38 neu 45A(5) o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
  (ii) adran 5 o'r Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Gorfwylltra) 1964 (6)
  (iii) adran 6 neu 14 o'r Ddeddf Apêl Troseddol 1968 (7)
  (iv) adran 57, (F357A) neu 59A o'r Ddeddf Gweithdrefn Droseddol 1995 (8) (yr Alban)
  (v) Erthygl 44, 45, 50A neu 51(2) a (3) o'r Gorchymyn Iechyd Meddwl 1986 (9) (Gogledd Iwerddon)
  (vi) adran 11 neu 13(5A) a (6) o'r Ddeddf Apêl Troseddol 1980 (10) (Gogledd Iwerddon)

bydd y lwfans yn dod i ben pan fydd y rhiant yn cael ei ryddhau. Os yw'r rhiant yn gwneud unrhyw daliadau tuag at gynhaliaeth y plentyn cyn cael ei ryddhau, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith.

Bydd y swm y mae'r rhiant wedi'i dalu tuag at gynhaliaeth y plentyn yn cael ei adennill o'ch taliadau Lwfans Gwarcheidwad.

# Sut i hawlio

Os oes gennych yr hawl i Fudd-dal Plant ar gyfer y plentyn, dylech lenwi BG1, 'Ffurflen hawlio Lwfans Gwarcheidwad'. Anfonwch hi atom yn yr amlen a ddarperir neu i'r cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen. Mae'n rhaid i chi anfon y canlynol atom hefyd:

- tystysgrif geni llawn ar gyfer pob plentyn sy'n dangos enwau'r rhieni
- tystysgrif marwolaeth ar gyfer pob rhiant, os yw'n berthnasol
- tystysgrif mabwysiadu'r plentyn, os yw'n berthnasol

Bydd angen stamp arnoch ar gyfer yr amlen. Sicrhewch eich bod yn talu'r swm postio cywir, neu mae'n bosibl na fyddwn yn ei chael. Ni allwn dderbyn llungopïau o dystysgrifau. Gallwn ôl-ddyddio Lwfans Gwarcheidwad am hyd at 3 mis.

# Pan fyddwch yn hawlio

Pan fydd eich hawliad yn dod i law, byddwn yn anfon y canlynol atoch:

- llythyr o gydnabyddiaeth gydag enw cyswllt a rhif ffôn
- unrhyw dystysgrifau y gwnaethoch eu hanfon gyda'ch hawliad

Pan fyddwn wedi penderfynu ar eich hawliad, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am ein penderfyniad. Os nad chi yw gwarcheidwad cyfreithlon y plentyn ac nad ydych yn perthyn i'r plentyn, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod lleol neu'r Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol lleol os ydych yn cael Lwfans Gwarcheidwad.

## Sut y mae Lwfans Gwarcheidwad yn cael ei dalu

Rydym yn talu Lwfans Gwarcheidwad yn uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

## Lwfans Gwarcheidwad a budd-daliadau eraill

Os ydych yn cael unrhyw arian ychwanegol ar gyfer y plentyn ar fudd-dal Yswiriant Gwladol megis Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ni allwch gael y cynnydd hwnnw yn ogystal â Lwfans Gwarcheidwad. Efallai y byddwch ar eich ennill os rhowch y gorau i hawlio'r cynnydd yn y budd-dal pan gewch Lwfans Gwarcheidwad. Holwch eich Canolfan Byd Gwaith, swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu swyddfa Swyddi a Budd-daliadau leol.

Gallwch gael Lwfans Gwarcheidwad ar ben y canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Cynhwysol

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

CDIO CEPO

Ebrill 2026 © Hawlfraint y Goron 2026